

Meini Prawf y Gronfa:

Cronfa Seaburne

Mae Cronfa Seaburne yn gronfa sydd yn cefnogi pobl o'r uwchradd i addysg bellach neu addysg uwch ledled Cymru sydd gyfda'g angen gwirioneddol am gymorth ariannol, ac na fyddai lefel y cyrhaeddiad addysgol y maent yn dymuno ei gyflawni yn bosibl heb y cymorth o'r gronfa hon.

Mae'r Gronfa yn anelu i wella addysg a chryfhau cymunedau yng Nghymru.

Y Grantiau sydd ar gael

- Gall unigolion ymgeisio am rhwng £1,000 a £1,500. Cofiwch, os ydych yn ymgeisio am fwrsari, bydd y grant yn parhau am y tymor astudio cyfan ar gyfer y cymhwyster.
- Gall sefydliadau ac ysgolion ymgeisio am grantiau o hyd at £1,500
- Rydym yn ystyried grantiau am rhwng 1 a 3 blwyddyn.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Rydym yn ystyried ceisiadau gan unigolion, grwpiau a sefydliadau di-elw ledled Cymru sy'n cefnogi anghenion addysgol myfyrwyr. Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol o bosibl o ganlyniad i bandemig COVID.

Sefydliadau:

Bydd arian y gronfa'n cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau ac *ysgolion i redeg prosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc o dan anfantais i ehangu a gwella eu dyheadau o ran addysg a gyrfa.

*Cofiwch y bydd yn RHAID i bob ysgol sy'n cyflwyno cais i'r gronfa allu dangos fod eu prosiect y tu allan i'r cwricwlwm ac NAD yw'n ddarpariaeth statudol.

Gellir cefnogi unigolion i

- Brynu offer sydd ei angen ar gyfer eu hastudiaeth
- Dalu costau addysg bellach drwy fwrsari i fyfyrwyr dawnus a thalentog sydd wedi bod o dan anfantais ac nad ydyn nhw'n gallu cynnal eu hunain yn economaidd i astudio ymhellach am gyfnod y cwrs. Rydym yn derbyn ceisiadau am astudiaeth ôl-raddedig, ond bydd ceisiadau israddedig yn cael eu blaenoriaethu.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob grŵp lenwi ffurflen gais ar lein sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

Ni fyddwn yn dyfarnu grantiau'n ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes yn ddyledus cyn derbyn y llythyr cynnig grant a llofnodi'r telerau ac amodau.

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu

Ni roddir grantiau i unigolion tuag at gostau os oes cefnogaeth ariannol arall ar gael e.e. ffioedd hyfforddiant ble mae'r ymgeisydd yn gymwys i gael benthyciad myfyriwr

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi derbyn cefnogaeth o'r Gronfa hon o'r blaen.

Gwybodaeth Bwysig i Sefydliadau sy'n Ymgeisio: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu.

Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.